O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 110

Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*24 Mehefin 2026*
Yn dod i rym	*1 Gorffennaf 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 110

The Bovine Viral Diarrhoea (Wales) (Amendment) Order 2026

Made	*24 June 2026*
Coming into force	*1 July 2026*

£8.90

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 110

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) (Diwygio) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024 (O.S. 2024/753 (Cy. 105)) ("Gorchymyn 2024").

Mae erthygl 2(2) yn diwygio erthygl 40(2) o Orchymyn 2024 gan ganiatáu i geidwaid eu hunain gymryd samplau tag clust o feinwe (yn unol ag erthygl 13 o Orchymyn 2024) o loi sy'n 20 diwrnod oed neu lai ar yr adeg y cymerir y sampl, at ddiben profi cyn symud.

Mae erthygl 2(3) yn diwygio erthygl 41(2) o Orchymyn 2024 gan ganiatáu i geidwaid eu hunain gymryd samplau tag clust o feinwe (yn unol ag erthygl 13 o Orchymyn 2024) o anifeiliaid at ddiben profi ar ôl symud.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

2026 Rhif 110

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*24 Mehefin 2026*
Yn dod i rym	*1 Gorffennaf 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) (Diwygio) 2026.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2026.

Diwygio Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024

2.—(1) Mae Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 40(2) (Profi cyn symud), o flaen is-baragraff (a) mewnosoder—

"(za) ar gyfer anifeiliaid sy'n 20 diwrnod oed neu lai (ar yr adeg y cymerir sampl), gymryd sampl tag clust o feinwe yn unol ag erthygl 13, neu".

(3) Yn erthygl 41(2) (Profi ar ôl symud anifeiliaid heb statws BVD unigol hysbys o fuchesi y tu allan i Gymru), o flaen is-baragraff (a) mewnosoder—

"(za) cymryd sampl tag clust o feinwe yn unol ag erthygl 13, neu".

(**1**) 1981 p. 22. Mae swyddogaethau "the Ministers" o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (fel y'u diffinnir yn adran 86(1) o'r Ddeddf honno) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru) yn rhinwedd Gorchmynion Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a 2004 (O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044) ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**2**) O.S. 2024/753 (Cy. 105), a ddiwygiwyd gan O.S. 2025/516 (Cy. 92).

Llyr Gruffydd
Y Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd, un o Weinidogion Cymru
24 Mehefin 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 110

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Bovine Viral Diarrhoea (Wales) (Amendment) Order 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order amends the Bovine Viral Diarrhoea (Wales) Order 2024 (S.I. 2024/753 (W. 105)) ("the 2024 Order").

Article 2(2) amends article 40(2) of the 2024 Order allowing keepers themselves to take ear tag samples of tissue (in accordance with article 13 of the 2024 Order) from calves that are aged 20 days or less at the point the sample is taken, for the purpose of pre-movement testing.

Article 2(3) amends article 41(2) of the 2024 Order allowing keepers themselves to take ear tag samples of tissue (in accordance with article 13 of the 2024 Order) from animals for the purpose of post-movement testing.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

2026 No. 110

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Bovine Viral Diarrhoea (Wales) (Amendment) Order 2026

Made	*24 June 2026*
Coming into force	*1 July 2026*

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred by sections 1 and 8(1) of the Animal Health Act 1981(**1**).

Title and coming into force

1.—(1) The title of this Order is the Bovine Viral Diarrhoea (Wales) (Amendment) Order 2026.

(2) This Order comes into force on 1 July 2026.

Amendment of the Bovine Viral Diarrhoea (Wales) Order 2024

2.—(1) The Bovine Viral Diarrhoea (Wales) Order 2024(**2**) is amended as follows.

(2) In article 40(2) (Pre-movement testing), before sub-paragraph (a) insert—

"(za) for animals that (at the point a sample is taken) are aged 20 days or less, take an ear tag sample of tissue in accordance with article 13, or".

(3) In article 41(2) (Post-movement testing of animals without a known individual BVD status from herds outside of Wales), before sub-paragraph (a) insert—

"(za) take an ear tag sample of tissue in accordance with article 13, or".

(**1**) 1981 c. 22. Functions of "the Ministers" under the Animal Health Act 1981 (as defined in section 86(1) of that Act) are exercisable by the Welsh Ministers (in relation to Wales) by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Orders 1999 and 2004 (S.I. 1999/672 and S.I. 2004/3044) and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**2**) S.I. 2024/753 (W. 105), amended by S.I. 2025/516 (W. 92).

Llyr Gruffydd
Cabinet Minister for Rural Resilience and Sustainability, one of the Welsh Ministers
24 June 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

williams lea | tso
An RRD Company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839881-6

9 780348 398816